

# LAWR A'R 'LORDS'.

*Alaw—"Y Mochyn Du."*

X205211118

**T**RA bo dwr yn afon Teifi,  
Tra bo ser y nef yn gwenu ;  
Tra bo gwaed yn nghalon Cymro  
Dros gyfiawnder y caiff lifo,

Cydgan—  
Lawr a'r "Lords," meddaf fi,  
Lawr a'r "Lords," meddaf fi,  
Wrth roi terfyn ar eu castiau  
Daw gwelliantau mawr i ni.

Tra mewn gwlad bydd gweithwyr diwyd,  
Tra fo bara'n cynal bywyd ;  
Trether moethau'r "Lords" goludog,  
Ac nid torth y flawd newynog.  
Lawr a'r "Lords," meddaf fi, &c.

Cydraddoldeb a brawdgarwch,  
Rhyddid llawn, a pherffaith degweh,  
Yn ein haddysg, yn ein crefydd,  
Ydyw hawliau Cymru Newydd,  
Lawr a'r "Lords," meddaf fi, &c.

Y mae Gwalia, galon gynes,  
Yn ffeiddio trais a gormes,  
Cartref brád yw Ty'r Arglwyddi,  
I fuddianau goreu Cymru,  
Lawr a'r "Lords," meddaf fi, &c.

Caiff LLOYD GEORGE, ein gwron hygar,  
Gymru fach yn Gymru deyrngar ;  
Dros y BUDGET ry'm yn gwaeddi,  
Ac yn erbyn Ty'r Arglwyddi,  
Lawr a'r "Lords," meddaf fi, &c.

Diffyndoliaeth fyddai'n melldith,  
Masnach Rydd yw'n penaf fendith ;  
Fossett Roberts yw ein gelyn,  
A Vaughan Davies yw ein ffafryn,  
Lawr a'r "Lords," meddaf fi, &c.

Dyma un o'r brwydrau poethaf,  
Fu yn erbyn trais cyfalaf,  
Er cael concwest anrhydeddus  
Rhowch eich pleidlais i **Vaughan Davies.**  
Lawr a'r "Lords," meddaf fi, &c.

G. S. R.